Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

15 Hydref 2010

Ysbyty HM Stanley

Yn unol â nod strategol hirsefydlog y Bwrdd Iechyd a'r sefydliadau blaenorol, mae cynlluniau'n cael eu rhoi ar y gweill i symud gwasanaethau clinigol ac anghlinigol o safle HM Stanley i gyfleusterau gwell erbyn Mawrth 2011. Mae'r Bwrdd Prosiect a sefydlwyd i ddarparu hyn wedi gwneud ei argymhellion terfynol ac ar ddydd Mercher 13 Hydref 2010, cymeradwyodd Bwrdd Cyfarwyddwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yr opsiynau a ffafriwyd ar gyfer symud gwasanaethau offthalmoleg, adsefydlu strôc a gwasanaethau ysbyty dydd a nifer o glinigau cleifion allanol cyffredinol.

Mae'r Prosiect wedi ymgysylltu'n agos â chlinigwyr, Cyngor Iechyd Cymuned, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, y sector gwirfoddol a staff a effeithir wrth wneud ei benderfyniad terfynol ynglŷn â lle y dylid symud gwasanaethau.

Bydd y **gwasanaeth offthalmoleg** yn symud i Ysbyty Abergele. Roedd y dystiolaeth glinigol a'r adborth gan randdeiliaid yn tynnu sylw at yr angen i gadw gwahanol elfennau'r gwasanaeth gyda'i gilydd, sef theatrau a wardiau. Mae'r lle a ddynodwyd yn Abergele yn galluogi'r gwasanaeth cyfan i symud gyda'i gilydd. Y gobaith yw y bydd y gwasanaethau wedi symud erbyn Mawrth 2011, er y bydd cynlluniau gweithredu manwl yn cael eu datblygu yn awr gan fod y penderfyniad terfynol wedi ei wneud. Bydd 100 o leoedd parcio ychwanegol ar gael.

Cytunwyd y bydd y gwasanaeth **Adsefydlu Strôc ac ysbyty dydd** yn symud gyda'i gilydd i Ysbyty Glan Clwyd. Mae'r dystiolaeth feddygol dros gael gwasanaethau llym ac adsefydlu ar y cyd yn ddiamheuol. Mae'r uned lem yn darparu gwasanaethau strôc arbenigol yn union wedi'r strôc, ac yna mae uned ar y cyd yn galluogi'r cleifion i brofi gwasanaeth symlach i roi'r cyfle gorau bosibl iddynt wella. Sefydlir yr uned ar Ward 14, fydd yn cael ei hail wneud a'i ehangu, a gwneir pob ymdrech i'w gwneud mor addas â phosibl ar gyfer hybu adsefydlu. Bydd rhai clinigau cleifion allanol Gofal yr Henoed a ddarperir ar hyn o bryd yn yr ysbyty dydd yn cael eu hail-ddarparu yn y gymuned.

Bydd **clinigau cleifion allanol** cyffredinol HM Stanley yn symud i Ysbyty Glan Clwyd. Bydd lle ychwanegol yn cael ei greu i wella profiadau cleifion allanol yn sylweddol, ac i wella asesiadau mae cleifion yn eu cael cyn llawdriniaethau, gan y bydd yn canoli staff a defnyddio eu sgiliau'n fwy hyblyg.

Bydd y staff anghlinigol sy'n gweithio yn HM Stanley ar hyn o bryd, sef y gweithwyr hynny sydd ddim yn ymwneud yn uniongyrchol â gwasanaethau gofal cleifion, yn symud i Ysbyty Abergele.

Bydd gwaith yn parhau yn awr i ddatblygu cynlluniau manwl i sicrhau fod y gwaith symud yn digwydd yn llyfn a'i fod wedi ei gynllunio'n dda. Rhan o'r gwaith hwn fydd dynodi amserlenni pendant, gyda'r nod o gwblhau'r holl waith symud erbyn diwedd Mawrth 2011 os bydd yn ddiogel yn glinigol i wneud hynny.

Bydd Hosbis Sant Cyndeyrn a Phencadlys Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru sydd ar y safle ar hyn o bryd yn aros yno, ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cydweithio â nhw i sicrhau fod ganddynt wasanaethau fel trydan, dŵr a charthffosiaeth i allu parhau i weithredu pan fydd y prif safle wedi cau.

Os bydd arnoch angen mwy o wybodaeth, cysylltwch â Barbara Lloyd i ddechrau ar 01745 534136, e-bost Barbara.lloyd@wales.nhs.uk.

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Mrs Dawn Davies	**01745 534495**
Mr Andy Scotson	**01978 725130**
Mr Trystan Pritchard	**01248 384938**

15 October 2010

HM Stanley Hospital

In line with a longstanding strategic aim of the Health Board, and predecessor organisations, plans are being put in place to relocate clinical and non-clinical services from the HM Stanley site into better facilities by March 2011. The Project Board established to deliver this has reached its final recommendations and the preferred options for the relocation of ophthalmology services, stroke rehabilitation and day hospital services, and a number of general outpatient clinics were approved by the Board of Directors of the Betsi Cadwaladr University Health Board on Wednesday 13th October 2010.

The Project has had close engagement with the clinicians, Community Health Council, service users and carers, the voluntary sector and staff affected in reaching the final decisions regarding where services should relocate to.

The **ophthalmology services** will move to Abergele Hospital. The clinical evidence and feedback from stakeholders highlighted the need to keep the various elements of the service together i.e. operating theatres and ward areas. The identified space in Abergele allows the service to move as a whole. It is hoped the services will move

by March 2011 although detailed implementation plans will be developed now the final decision has been taken. There will be 100 additional car parking spaces provided.

It has been agreed that the **Stroke Rehabilitation and day hospital** will move together to Ysbyty Glan Clwyd. The medical evidence for a combined acute and rehabilitation services is unquestionable. The acute unit provides specialist stroke services immediately after the stroke, and then a combined unit allows the patients to experience a streamlined service to maximise their opportunities to reach their full level of recovery. The unit will be situated on an expanded and refurbished Ward 14 and every effort will be made to make the surroundings as conducive as possible to rehabilitation. Some Care of the elderly outpatient clinics currently provided in the day hospital will be reprovided in community settings.

The general **outpatient clinics** from HM Stanley will move onto the Ysbyty Glan Clwyd site. Additional space will be created that will allow significant improvements to patients experience as out patients and will also allow for improvements in the assessments patients receive prior to operations (pre-operative assessment) as it will centralise staff and allow their skills to be used in a more flexible way.

The non clinical staff currently based in HM Stanley i.e. those not directly involved in patient care services will be moved to Abergele Hospital.

Work will now carry on developing detailed plans to ensure all moves happen smoothly and are well planned. Definite timescales will be identified as part of this work with an aim to complete all moves by the end of March 2011 if clinically safe to do so.

The St Kentigern's Hospice and the Welsh Ambulance Service Trust Headquarters currently based on the site will remain where they are and Betsi Cadwaladr University Health Board is working with them to ensure they have the necessary utility services such as electricity, water and drainage to continue to operate once the main site has closed.

Should you require any further information please contact Barbara Lloyd in the first instance on 01745 534136 email Barbara.lloyd@wales.nhs.uk.

ENDS

For further information please contact:

Mrs Dawn Davies **01745 534495**
Mr Andy Scotson **01978 725130**
Mr Trystan Pritchard **01248 384938**